Heol Colcot, Y Barri, CF62 8YU
Colcot Road, Barry, CF62 8YU
01446 450280
post@ygbm.co.uk
www.ygbm.cymru

02:09:24

Annwyl Riant/Ofalwr
Mae'n bleser gennyf eich croesawu yn ôl i flwyddyn newydd a chyffrous arall yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Gobeithio eich bod wedi cael haf braf a chyfle i ymlacio fel teulu cyn inni ail-afael ym mwrlwm y tymor newydd.

Trefniadau dechrau tymor

Fel y nodwyd yn y llythyrau diwedd tymor, bydd yr holl ddisgyblion Cynradd, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 12 yn dychwelyd i'r ysgol ar **ddydd Mercher 4ydd o Fedi**. Bydd staff ar ddyletswydd i gyfarch Blwyddyn 7 fore Mercher a'u hebrwng i'r mannau cywir os ydynt yn cyrraedd ar fws, mewn car neu wedi cerdded. Mae'r ysgol a chyfnod cofrestru'r bore yn dechrau yn swyddogol am 8.30 felly gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad i sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd yn brydlon. Bydd gweddill y disgyblion Uwchradd yn dychwelyd ar **ddydd Iau 5ed o Fedi**. Edrychwn ymlaen at eu croesawu oll.

Canlyniadau Arholiadau Allanol

Hoffwn fachu ar y cyfle yma i longyfarch ein holl ddisgyblion dderbyniodd ganlyniadau arholiadau allanol gwych, TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch dros yr haf. Rydym yn ymfalchïo yn fawr yn eu llwyddiant ac yn edrych ymlaen at weld nifer helaeth yn dychwelyd atom i'r Chweched Dosbarth. Dymunwn bob llwyddiant i'r disgyblion sy'n ein gadael er mwyn dechrau pennod newydd yn eu bywydau, boed hynny yn y brifysgol, mewn prentisiaeth neu yn y byd gwaith gan ddiolch yn fawr iddynt am eu cyfraniad i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar hyd y blynyddoedd.

Calendr y flwyddyn

Rhannwyd calendr rhieni gyda chi fis Gorffennaf a bellach mae'r holl ddyddiadau pwysig yma wedi eu gosod ar wefan yr ysgol www.ygbm.cymru. Rhennir gwybodaeth amserol am ddigwyddiadau a gweithgareddau ysgol yn ogystal ar ein cyfrif X @YGBroMorgannwg.

Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi eto yn ystod y flwyddyn academaidd sydd o'n blaenau.

Yn gywir

Mr Rhys Angell Jones
Pennaeth

Pennaeth Headteacher: Mr R Angell Jones
Uwch Dîm Arwain Senior Leadership Team:
Catrin Bennett, Nia Rowlands, David Morgan,
Richard Chidley, Catrin Walters, Ffion Williams

Heol Colcot, Y Barri, CF62 8YU
Colcot Road, Barry, CF62 8YU
01446 450280
post@ygbm.co.uk
www.ygbm.cymru

Dear Parent/Carer

It is my pleasure to welcome you back to another new and exciting year at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. I hope that you had a lovely summer break and an opportunity to relax as a family before we get back into the hustle and bustle of the new school term.

Start of term arrangements

As stated in the end of term letters, all Primary pupils, Year 7 and Year 12 pupils will return to school on **Wednesday 4th of September.** Staff will be on duty to greet Year 7 pupils on Wednesday morning and escort them to the correct places whether they arrive by bus, by car or on foot. School and morning registration officially start at 8:30am so we kindly ask for your cooperation in ensuring that your child arrives on time. The remaining secondary pupils will return on **Thursday 5TH of September**. We look forward to welcoming them all.

External Exam Results

I would like to take this opportunity to congratulate all pupils who received excellent external exam results at GCSE, AS and A-level over the summer. We are very proud of their success and look forward to seeing a large number return to us in the Sixth Form. We wish the pupils who have left us every success as they start a new chapter in their lives, whether at university, in an apprenticeship or in the world of work and thank them for all their contribution to Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg over the years.

Calendar

We shared a parents' calendar with you in July and all these important dates have now been posted on the school's website www.ygbm.cymru. Timely information about school events and activities will also be shared on our X account @YGBroMorgannwg.

We look forward to working with you again during this academic year.

Yours sincerely

Mr Rhys Angell Jones
Headteacher

Pennaeth Headteacher: Mr R Angell Jones
Uwch Dîm Arwain Senior Leadership Team:
Catrin Bennett, Nia Rowlands, David Morgan,
Richard Chidley, Catrin Walters, Ffion Williams